Cefnogi'r Gymraeg

Sut y gall eich busnes wneud y gorau o'r Gymraeg

Investing in Welsh

How your business can make the most of Welsh

1.0

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Defnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg

Yng Nghymru mae nifer fawr iawn o fusnesau eisoes yn defnyddio'r Gymraeg. Mae ymchwil yn dangos bod y rhan fwyaf o gwsmeriaid yn gwerthfawrogi hynny, ac yn meddwl bod defnyddio'r Gymraeg gan fusnesau yn bwysig.

Mae Marc Cefnogi'r Gymraeg yn ffordd hawdd i fusnesau dynnu sylw at eu cefnogaeth i'r Gymraeg, ac i ddangos eu bod nhw'n parchu disgwyliadau cwsmeriaid Cymru.

Pam cymryd rhan yng nghynllun Cefnogi'r Gymraeg?

Os yw eich busnes eisoes yn defnyddio'r Gymraeg, bydd cynllun Cefnogi'r Gymraeg yn eich helpu chi i hyrwyddo hynny.

Os nad yw eich busnes yn defnyddio'r Gymraeg ar hyn o bryd, bydd cynllun Cefnogi'r Gymraeg yn ei roi ar ben y ffordd. Nid yw'n golygu gwneud popeth yn ddwyieithog, ac nid yw'n mynnu bod gennych staff sy'n medru siarad Cymraeg. Gall eich busnes ddefnyddio'r cynllun fel cam cyntaf, ac adeiladu ar hynny dros amser.

Mae busnesau adnabyddus ac uchel eu parch eisoes yn rhan o'r cynllun, felly bydd eich busnes mewn cwmni da. Bydd eich staff a'ch cwsmeriaid yn falch bod eich busnes yn cefnogi iaith a diwylliant gwerthfawr Cymru.

Pa fuddion eraill sydd i'r cynllun?

Bydd bron pob un o'r 600,000 o bobl sy'n medru siarad Cymraeg yn falch o weld bod eich busnes yn gefnogol i'r Gymraeg. Ond nid eu hiaith nhw yw hi yn unig. Mae ymchwil annibynnol[1] yn dangos bod y rhan fwyaf o bobl Cymru yn falch o'r Gymraeg, ac yn meddwl ei fod yn bwysig bod busnesau yn ei defnyddio. Er mai 1 mewn 5 o bobl Cymru sy'n siarad Cymraeg, mae 3 mewn 5 yn gefnogol i'r iaith. Trwy gofrestru ar gynllun Cefnogi'r Gymraeg, bydd yr holl bobl hyn, yn Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, yn medru gweld bod eich busnes yn parchu'r Gymraeg.

Mae ymchwil annibynnol hefyd yn dangos fod cwsmeriaid yn cysylltu gwasanaeth yn Gymraeg a nwyddau wedi eu pecynnu yn ddwyieithog gydag ansawdd uwch. Mae arweinwyr y farchnad wedi gweld hynny, a nhw mewn sawl sector sy'n arwain o ran defnyddio'r Gymraeg. Bydd cofrestru ar y cynllun yn dweud wrth eich cwsmeriaid - hen a newydd - bod eich busnes yn cyrraedd safonau uchel.

Bydd y Bwrdd yn cynnal cyfeiriadur o fusnesau sydd wedi cofrestru ar gynllun Cefnogi'r Gymraeg. Bydd unrhyw un sydd eisiau chwilio am fusnes sy'n gefnogol i'r Gymraeg yn medru gwneud hynny'n hawdd, felly bydd cofrestru ar y cynllun yn arf marchnata ychwanegol i'ch busnes.

Sut mae cofrestru fy musnes ar gyfer Cefnogi'r Gymraeg?

Dim ond cadarnhau i'r Bwrdd bod eich busnes yn cyflawni ymrwymiadau'r cynllun, gan gynnwys enw, cyfeiriad a manylion cyswllt eich busnes. Medrwch wneud hynny trwy ddanfon neges e-bost at post@byig-wlb.org.uk neu trwy ysgrifennu at y cyfeiriad ar waelod y ddogfen hon.

[1] Beaufort Research ar ran Bwrdd yr Iaith Gymraeg, 2005

Ymrwymiadau Cefnogi'r Gymraeg

Egwyddorion

Sail Cydraddoldeb Rydym yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal, cyn belled a bod hynny'n rhesymol ac ymarferol.

Amlieithrwydd Os byddwn yn cynnig gwasanaeth amlieithog yng Nghymru, byddwn yn sicrhau bod y Gymraeg yn un o'r ieithoedd sydd ar gael ochr-yn-ochr â'r Saesneg.

Cyfathrebu

Cyfathrebu yn Ysgrifenedig Rydym yn croesawu ymholiadau ysgrifenedig yn y Gymraeg; byddwn yn cynnal gweddill yr ohebiaeth honno yn y Gymraeg, ac yn sicrhau bod safon ein gwasanaeth yn y Gymraeg cystal â'n gwasanaeth yn Saesneg wrth wneud hynny.

Cyfathrebu ar Lafar Rydym yn sicrhau bod ein holl staff yng Nghymru yn gwrtais wrth ymateb i ymholiadau yn y Gymraeg. Rydym yn dangos ein bod yn croesawu defnydd o'r Gymraeg trwy annog ein staff dwyieithog i ddefnyddio logo *Iaith Gwaith* wrth eu gwaith.

Delwedd Gyhoeddus

Arwyddion Rydym yn sicrhau bod arwyddion parhaol newydd yn ddwyieithog. Byddwn yn cynyddu ein defnydd o'r Gymraeg ar arwyddion dros dro.

Delwedd Gorfforaethol Byddwn yn defnyddio mwy o Gymraeg wrth hysbysebu a marchnata yng Nghymru. Lle bo'n briodol, byddwn yn tynnu sylw at ein defnydd o'r Gymraeg trwy ddefnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg ar ein deunydd hysbysebu a marchnata dwyieithog.

Staffio a'r Gweithle

Sgiliau Iaith Gymraeg Rydym yn adnabod a gwerthfawrogi'r gallu i siarad Cymraeg fel sgil sydd yn ddefnyddiol wrth weithio yng Nghymru.

Defnydd o'r Gymraeg yn y Gweithle Rydym yn croesawu defnyddio'r Gymraeg gan ein staff yng Nghymru, heblaw mewn rhai amgylchiadau ffurfiol a phenodol. Os byddwn am i'n staff ddefnyddio'r Saesneg yn unig, byddwn yn esbonio yn glir pam ein bod yn gwneud hynny.

Polisi

Polisi Iaith Gymraeg Byddwn yn paratoi Polisi Iaith Gymraeg ysgrifenedig.

Ymwybyddiaeth Pan fydd gennym Bolisi Iaith Gymraeg, byddwn yn dwyn y ddogfen i sylw ein holl staff yng Nghymru, ac yn sicrhau bod y cyhoedd yn medru ei darllen yn gyfleus.

Beth yw amodau defnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg?

Mae'r Bwrdd yn caniatáu defnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg o dan yr amodau canlynol:

1. Dim ond busnesau sydd wedi cofrestru gyda'r Bwrdd sy'n cael defnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg.

2. Mae'r Bwrdd yn berchen ar hawlfraint pob gwaith celf Cefnogi'r Gymraeg ac unrhyw atgynhyrchiadau ohono. Ni chewch addasu Marc Cefnogi'r Gymraeg o gwbl.

3. Gall y Bwrdd atal yr hawl i chi ddefnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg ar unrhyw adeg. Er enghraifft, byddai'n gwneud hynny pe bai eich busnes yn gyson yn methu â chyflawni ymrwymiadau Cefnogi'r Gymraeg.

4. Y maint lleiaf ar gyfer defnyddio Marc Cefnogi'r Gymraeg yw 20mm ar draws.

5. Ni chewch roi'r argraff bod Marc Cefnogi'r Gymraeg yn arwydd bod y Bwrdd wedi monitro, cytuno na gwobrwyo darpariaeth eich busnes yn y Gymraeg.

6. Rhaid i chi gadarnhau yn flynyddol bod eich busnes yn parhau i gyflawni ymrwymiadau Cefnogi'r Gymraeg.

Pwy fydd yn monitro cynllun Cefnogi'r Gymraeg?

Busnesau a chwsmeriaid fydd yn monitro defnydd o Marc Cefnogi'r Gymraeg. Mae disgwyl i fusnesau fonitro eu bod yn parhau i gyflawni ymrwymiadau'r cynllun. Lle bydd busnes yn methu cyflawni'r ymrwymiadau ac yn parhau i ddefnyddio'r Marc bydd yn camarwain ei gwsmeriaid, a bydd y cwsmeriaid hynny yn medru tynnu sylw'r busnes a'r Bwrdd at hynny. Er mwyn gwarchod hygrededd y cynllun, bydd y Bwrdd yn atal yr hawl i ddefnyddio'r Marc pan fydd busnes yn gyson yn methu â chyflawni'r ymrwymiadau.

Beth sy'n digwydd ar ôl i ni gofrestru ar y cynllun?

Dylech sicrhau bod eich holl staff yng Nghymru yn gwybod eich bod wedi cofrestru ar gynllun Cefnogi'r Gymraeg ac yn deall yr ymrwymiadau.

Dylech hefyd sicrhau fod y cyhoedd yn gwybod am ymrwymiad eich cwmni i gynllun Cefnogi'r Gymraeg, trwy ddechrau defnyddio'r Marc.

Os nad oes Polisi Iaith Gymraeg gyda'ch busnes eisoes, dylech gychwyn ar y broses o lunio un, er mwyn gosod allan yn glir sut bydd eich busnes yn ymwneud â'r Gymraeg. Gall y Bwrdd gynnig cyngor ac adnoddau i'ch helpu i wneud hynny.

Gwybodaeth Bellach

Cewch yr wybodaeth ddiweddaraf am y cynllun a manylion ar sut i gofrestru ar wefan y Bwrdd.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
5-7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT

029 20878000

Using the Investing in Welsh Mark

Many businesses in Wales already use Welsh. Research shows that most customers appreciate this, and that they think it is important that businesses in Wales use the Welsh language.

The Investing in Welsh Mark makes it easy for businesses to show that they respect their customers in Wales, and helps businesses draw attention to the ways in which they support the Welsh language.

Why take part in the Investing in Welsh scheme?

If your business already uses Welsh, the Investing in Welsh scheme will help you to promote that.

If your business does not use Welsh at the moment, the Investing in Welsh scheme will help you make a start. It doesn't mean that you have to do everything bilingually, and it does not mean that you have to have bilingual staff. Your business can use the scheme as a first step, to build up its use of Welsh over time.

Many prominent and well-respected businesses are already part of the scheme, so your business will be in good company. Your staff and customers will be proud that your business is supporting the precious language and culture of Wales.

What other benefits are there to registering for Investing in Welsh?

Virtually all of the 600,000 people who can speak Welsh will be pleased to see that your business is backing the Welsh language. But it is not their language alone. Independent research[2] shows that most people in Wales are proud of the Welsh language, and that they think it is important that businesses use it. Although only 1 in 5 people in Wales speak Welsh, more than 3 in 5 support the language. By registering for the Investing in Welsh scheme, all these people, Welsh speaking and non-Welsh speaking will be able to see that your business respects Welsh.

Research also shows that customers associate Welsh language services and products which have bilingual packaging with higher quality. Market leaders realise this and in many sectors they are leading the way in expanding the use of Welsh. Registering for the scheme will tell your customers – existing and new – that your business reaches the highest of standards.

The Board will host a directory of businesses which have registered for the Investing in Welsh scheme. Anyone who wants to find a business which supports Welsh will be able to do so easily, so registering for the scheme will give your business an extra marketing tool.

How do I register my business for Investing in Welsh?

Simply confirm to the Board that your business meets the scheme requirements, including your business name, address and contact details. You can do this by sending an email to post@byig-wlb.org.uk, or by writing to the address at the end of this document.

[2] Beaufort Research on behalf of the Welsh Language Board 2005

The Investing in Welsh Commitments

Principles

Basis of Equality We treat Welsh and English on an equal basis, so far as is reasonable and practicable.

Multilingualism If we offer a multilingual service in Wales, we will ensure that Welsh is one of the languages available alongside English.

Communication

Written Communication We welcome written enquires in Welsh, we will reply and conduct the remainder of that correspondence in Welsh, and we will ensure that in doing so our service in Welsh is as good as our service in English.

Verbal Communication We ensure that all our staff in Wales respond politely to Welsh language enquiries. We show that we welcome the use of Welsh by encouraging our bilingual staff to use the *Working Welsh* logo at work.

Public Image

Signs We ensure that new permanent signs are bilingual. We will increase our use of Welsh on temporary signs.

Corporate Image We will use more Welsh in our advertising and marketing in Wales. Where appropriate, we will promote our use of Welsh by using the Investing in Welsh Mark on our bilingual advertising and marketing materials.

Workplace and Skills

Welsh Language Skills We recognise and appreciate the ability to speak Welsh as a skill which is useful when working in Wales.

Using Welsh at Work We welcome the use of Welsh by our staff in Wales, except in certain formal or specific situations. If we require our staff to use English only, we will explain clearly why we are doing so.

Policy

Welsh Language Policy We will prepare a written Welsh Language Policy.

Awareness When we have a Welsh Language Policy, we will draw it to the attention of all our staff in Wales, and we will ensure that it is easily available for the public to read.

What are the terms of use for the Investing in Welsh Mark?

The Board allows use of the Investing in Welsh Mark subject to the following terms:

1. The Investing in Welsh Mark can only be used by businesses which have registered with the Board.

2. The Board owns the copyright to all Investing in Welsh artwork and any reproductions of it. You may not modify the Investing in Welsh Mark in any way.

3. The Board can withdraw permission to use the Investing in Welsh Mark at any time. For example, we would do so if your business consistently fails to reach the Investing in Welsh commitments.

4. The smallest size for using the Investing in Welsh Mark is 20mm wide.

5. You may not say or suggest that the Investing in Welsh Mark is an award or an indication that the Board has monitored or approved your business' use of Welsh.

6. You must confirm annually that your business continues to satisfy the Investing in Welsh commitments.

Who will monitor the Investing in Welsh scheme?

Use of the Investing in Welsh Mark will be monitored by businesses and customers. There is an expectation that businesses continually monitor that they satisfy the scheme commitments. Any business which does not satisfy the commitments but continues to use the Mark will be misleading its customers, and they will be able to draw this to the Board's attention. To protect the integrity of the scheme, the Board will withdraw permission to use the Mark when a business consistently fails to reach the scheme commitments.

What happens after we have registered for the scheme?

You should ensure that all your staff in Wales know that you are taking part in the Investing in Welsh scheme, and that they understand the Investing in Welsh commitments.

You should also ensure that the public know about your business' commitment to Investing in Welsh, by starting to use the Mark.

If your business does not already have a Welsh Language Policy, you should start on the process of preparing one, in order to set out clearly how your business will engage with Welsh. The Board can provide tools and advice to help you do this.

Further Information

The Board's website provides further information and details on how to register.

Welsh Language Board
5-7 St Mary Street
Cardiff
CF10 1AT

029 20878000